**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion o gyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 22ain Medi yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Cychwynnodd y cyfarfod am 1.30 y prynhawn.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cynghorydd T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| Cynghorydd S Frobisher (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cynghorydd J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |

YN ARSYLWI:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); C Hanks (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Sicrwydd Gweithredol); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Adnoddau);
R Simmons (Prif Swyddog Cynorthwyol, Sefydliadol a Datblygu Pobl); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); B Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); Sian Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau); A Davies (Darpar Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| C Everett | Clerc a Swyddog Monitro |

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau nad oedd y Clerc/Swyddog Monitro yn gallu bod yn bresennol. Roedd y Clerc wedi hysbysu'r Cadeirydd, yn ei farn ef, nad oedd unrhyw fater ar yr agenda fyddai angen cyngor y swyddog monitro.

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Nid oedd unrhyw faterion wedi eu cyflwyno i'r Cadeirydd am ystyriaeth.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28ain Gorffennaf 2008 fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion yn amodol ar newid y swm o arian a gasglwyd i elusen Tŷ Gobaith wedi'r gêm griced ddylai ddarllen £1,400 (o dan ran II o'r cofnodion).

3 MATERION YN CODI

3.1 Adolygiad Cyfansoddol - roedd y Clerc a'r Prif Swyddog Tân wedi ymgymryd â darnau unigol o waith ymchwil ac yn cyfarfod yn fuan i'w trafod. Bydd drafft o'r gwaith ar gael i aelodau wedi hynny. Fe ddylai unrhyw aelod sy'n dymuno cyfrannu at yr adolygiad anfon e-bost i'r Clerc neu i'r Prif Swyddog Tân. Cytunwyd y byddai'r Trysorydd yn rhan o'r cyfansoddiad.

4 YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU CYNLLUN LLEIHAU RISG 2009-10 YR AWDURDOD

4.1 Cyflwynwyd y papur i hysbysu aelodau o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg 2009-10 yr Awdurdod; i edrych am argymhelliad i'r Awdurdod Tân ac Achub Llawn parthed y Cynllun Gweithredu; ac i gytuno ar eiriad ymateb yr Awdurdod i'r materion a godwyd.

4.2 Roedd Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg wedi trafod ac ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd parthed ymgynghoriad Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg. Mae'r argymhellion arfaethedig i'r Awdurdod Tân llawn wedi eu rhestru isod:

4.3 Symud ymlaen gydag Adolygiad o Swyddogion wrth Gefn er mwyn darparu adnoddau i'r tîm sicrwydd gweithredol a gwaith diogelwch cymunedol.

4.4 Symud ymlaen gydag adolygiad i griwio'r Peiriannau ag Ysgol ag Esgynlawr a phan fo'r cyfle'n codi, trosglwyddo arian y swyddi penodol yma i ariannu mwy o ymarferwyr ar yr amodau mwyaf addas i gwrdd ag amcanion yr Awdurdod.

4.5 Cytunwyd fod y trefniadau arlwyo yn fater rheoli ac y dylai'r cynnig hwn gael ei ddileu o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg.

4.6 Ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o risg ar draws Gogledd Cymru er mwyn cynhyrchu Cynllun Lleihau Risg llawn yn 2009/10.

4.7 **PENDERFYNODD YR AELODAU:**
**(i) nodi'r 13 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad;**
**(ii) cynnig yr argymhellion uchod i'r Awdurdod Tân llawn;**
**(iii) cytuno ar eiriad ymateb yr Awdurdod i'r materion a godwyd.**

5 ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL 2007-08 (SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU) A LLYTHYR O GYNRYCHIOLIAD (TRYSORYDD)

5.1 Cyflwynwyd y papur i dderbyn cyfrifon sydd wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd apwyntiwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain wedi cael eu diwygio yn unol gyda darganfyddiadau'r archwiliad a thrafodaethau dilynol am driniaeth, diffiniadau a chyflwyniad eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

5.2 Roedd yr archwilydd wedi edrych am gyngor cyfreithlon mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn ac fe gadarnhawyd nad oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub yr awdurdod i gadw cronfeydd wrth gefn. Mae trafodaethau ar fynd ar hyn o bryd mewn perthynas â'r darpariaethau a restrir ar dudalen 6 o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Er bod angen gwneud newidiadau technegol, cadarnhawyd na fyddai'n tanwariant net yn cael ei effeithio.

5.3 Diolchodd yr archwilydd i Sandra Forrest, Dawn Docx a'u timau am eu holl gymorth.

5.4 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelodau, nodwyd mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n comisiynu caffael gwasanaethau archwilio a bod rhaid rhoi peth o'r gwaith i gwmnïau yn y sector breifat.

5.5 Gofynnodd y Trysorydd i'r Aelodau nodi paragraffau 3 (a) - (g) o'r papur eglurhaol.

5.6 **PENDERFYNODD YR AELODAU:**
**(i) nodi'r datganiad o gyfrifon diwygiedig ar gyfer 2007-08;**
**(ii) cydnabod y llythyr o gynrychioliad anfonwyd i'r archwilydd allanol, A chytuno gallai'r Trysorydd ei newid fel sydd angen yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilydd;**
**(iii) cytuno gallai'r Trysorydd, wedi ymgynghoriad gyda'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc, gytuno'r newidiadau cyflwyniadol i'r cyfrif yn dilyn trafodaethau gydag archwilwyr KPMG.**

6 RHAGOLYGON CYLLIDEB 2009/10

6.1 Cyflwynwyd y papur i hysbysu Aelodau o'r pwysau cyllideb hysbys arwyddocaol ar gyfer 2009/10 a thu hwnt. Ni oes modd mesur yr holl bwysau ar hyn o bryd, ond lle bynnag sy'n bosib, maen nhw wedi eu cynnwys i gynhyrchu cyllideb ddangosol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn seiliedig ar yr hyn sy'n hysbys eisoes, byddai angen cynnydd o 5.49% a rhaid ystyried hyn yng ngoleuni setliad Grant Cynnal Refeniw allai fod oddeutu 2% yn y diwedd. Mae disgwyl bydd arbedion effeithiolrwydd o 1% yn cael ei wneud.

6.2 Fe Arweiniodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) aelodau drwy'r papur a chanolbwyntio'r canlynol:

6.3 Firelink - system radio newydd fydd yn weithredol o fis Medi 2009 ar gost o £350k am 6 mis. Cynhelir trafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru am y trefniadau ariannu ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

6.4 Y Dimensiynau Newydd/ Gallu Tymor Hir - Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n berchen â'r peiriannau a'r offer ar hyn o bryd, fel rhan o drefniant cydnerth cenedlaethol, ond os fyddai perchnogaeth yn cael ei drosglwyddo i'r Awdurdodau Tân ac Achub, byddai costau cynnal a chadw yn syrthio i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mynegodd Aelod bryderon a theimlai ddylai'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog, gyda'r Awdurdodau eraill yng Nghymru, ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi os fyddai'r peiriannau yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod, yna fe ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru dalu costau cynnal a chadw.

6.5 Mae ymarfer gwerthuso swyddi yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Nodwyd nad oes canllawiau cenedlaethol i'r broses. Ar ôl i'r broses

ddod i ben, bydd cyflogau yn cael eu hystyried. Bydd rhagor o wybodaeth ar y goblygiadau cost ar gael ym mis Rhagfyr lle bydd swyddi yn dechrau cael eu mapio a bydd gwybodaeth well ar gael.

6.6 Mewn cysylltiad â dyfarniadau cyflog, nodwyd yn y papur mai cyfeiriad y llywodraeth yw y dylid cyfyngu dyfarniadau taliadau cyflog i 2%. Roedd Aelod yn ystyried fod y setliad grant cynnal refeniw yn fwy tebygol o fod yn 1.5% na'r 2% gyfeiriwyd ato yn y papur hwn.

6.7 **Nododd yr aelodau'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y papur.**

7 ADRODDIAD GRŴP GORCHWYL Y PRIF SWYDDOG TÂN

7.1 Rhoddodd Richard Fairhead gyflwyniad ar yr uchod er budd yr Aelodau newydd. Bydd yr holl aelodau newydd yn derbyn copi o'r adroddiad.

7.2 Yn dilyn cyflwyniad, cododd yr aelodau'r materion canlynol:

7.3 Sigaréts RIP - nodwyd fod yr Uned Ewropeaidd yn symud ymlaen gyda'r mater yma. Fodd bynnag, atgoffwyd aelodau mai arddull byw pobl oedd achos llawer o'r marwolaethau yma ac mai dim ond lliniaru'r peryglon i raddau all yr Awdurdod wneud.

7.4 Roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Rhanbarthol Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol i fforio cyfleoedd partneriaeth pellach gydag ystyriaeth i strategaethau rhoi'r gorau i ysmygu'n ymwneud â phobl ifanc.

7.5 **Nododd yr aelodau'r cyflwyniad.**

8 CYNLLUN IAITH GYMRAEG A STRATEGAETH SGILIAU IEITHYDDOL

8.1 Cyflwynwyd y papur i hysbysu aelodau o ddatblygiadau newydd a chynnydd yn yr hyrwyddiad o'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

8.2 Mae polisi Iaith Gymraeg yr Awdurdod yn cael ei fonitro a'i archwilio gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r strategaeth sgiliau yn mesur sgiliau unigolion ac yn ystyried y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi, yn mesur y bwlch ac yna mae cynllun yn cael ei roi yn

ei le. Mae'n rhan o brosiect tymor hir i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn y Gwasanaeth.

8.3 Nodwyd mai gwerthfawrogi'r iaith Gymraeg a gallu ynganu enwau llefydd a phobl yn gywir yw prif nod Lefel 1 yn ogystal â defnyddio cyfarchion Cymraeg. Mae Lefel 3 yn debyg i lefel TGAU.

8.4 Llongyfarchodd yr aelodau'r swyddogion ar y strategaeth ac am gydnabod fod siarad/ysgrifennu Cymraeg yn sgil ychwanegol.

8.5 **Penderfynodd yr aelodau gefnogi'r strategaeth.**

9 MONITRO PERFFORMIAD

9.1 Cyflwynwyd y papur gyda gwybodaeth am weithgaredd a pherfformiad y Gwasanaeth i aelodau.

9.2 Amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Cynnydd yng nghyfanswm nifer y galwadau oherwydd staff yr Ystafell Reoli yn gweithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac yn anfon peiriannau i fwy o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, gan gynyddu cyflymder presenoldeb mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd;

(ii) cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y nifer o larymau mwg gweithredol oherwydd archwiliadau diogelwch tân yn y cartref gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;

(iii) larymau maleisus a diangen - derbyniwyd llai o alwadau oherwydd pan fo galwadau yn cael eu derbyn, maent yn cael eu herio gan achosi llai o fynychiadau.

9.3 Nodwyd fod yr Ystafell Reoli ar fin symud i Crud Y Dderwen ac y byddai hyn yn sicrhau gwell cydweithrediad rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub ac yn hwyluso'r broses o ddelio gyda galwadau brys sydd angen mwy nag un gwasanaeth brys.

9.4 **Nododd yr aelodau gynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

10 FFRAMWAITH CENEDLAETHOL TÂN AC ACHUB CYMRU 2008-2011

10.1 Cyflwynwyd y papur i hysbysu Aelodau fod y Fframwaith uchod wedi cael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bellach.

10.2 Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau fod Ymgynghorydd Tân ac Achub annibynnol am gael ei h/apwyntio i'r Cynulliad.

10.3 Roedd Aelodau wedi mynychu seminar ym Mrycheiniog yn ddiweddar ac roedd yn teimlo fod y Cynullid yn ceisio creu lefel arall o fiwrocratiaeth a chyfarfodydd. Fodd bynnag, teimlai'r Aelodau fod mwy o waith partneriaeth ei angen gyda Byrddau Gwasanaeth Lleol.

10.4 **Nododd Aelodau gyhoeddiad y Fframwaith a'r adolygiadau i'r ddogfen ddrafft fel yr amlinellir yn y papur eglurhaol.**

11 AELODAETH O WEITHGORAU

11.1 Gofynnwyd am enwebiadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer aelodaeth o:

(i) Weithgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol - **pob Awdurdod Lleol i enwebu un cynrychiolydd;**

(ii) Trefniadau Tân Wrth Gefn ac Adolygiad Risg - **yng Ngweithgor y Cynllun Lleihau Risg, penderfynwyd i'r canlynol fod yn rhan o'r grŵp M Ll Davies, G C Evans, P Jeffares, A M Jones, E Morgan Jones, J V Owen a B Roberts - a gofyn i Sir y Fflint enwebu cynrychiolydd**; a

(iii) Grŵp Strategaeth Partneriaeth - **enwebodd yr aelodau is-gadeirydd i gynrychioli'r Awdurdod ar y grŵp hwn.**

RHAN II

12 CYFLWYNIAD O DREFNIADAU WRTH GEFN MEWN DIGWYDDIAD O AFLONYDDWCH MAWR

12.1 Cyflwynodd Paul Claydon wybodaeth am y prosiect cenedlaethol sydd wedi bod mewn datblygiad am beth amser ac angen rhai penderfyniadau gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

12.2 Mae proses dendro wedi cael ei chynnal i wahodd sefydliadau i wneud cais am y cyfle i ddarparu gwasanaethau tân mewn digwyddiad aflonyddwch mawr. Mae'r broses wedi cyrraedd man lle mae un o'r darparwyr wedi cael ei adnabod fel y tendr dewisol, fodd bynnag, roedd nawr yn benderfyniad i'r Awdurdodau Tân ac Achub os oeddent eisiau parhau gyda'r prosiect neu fforio llwybrau amgen.

12.3 Roedd y Prif Swyddog Tân wedi trafod y mater gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae trafodaethau pellach i'w cynnal gyda'r Gweinidog. Safle'r Llywodraeth bresennol yw nad yw'r prosiect yn cynrychioli baich newydd ac na fyddai arian ychwanegol yn cael ei ddarparu.

12.4 Mynegodd Aelodau bryderon difrifol am y prosiect ac roeddynt yn teimlo fod angen codi'r mater gydag Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill.

12.5 Roedd Aelodau yn cydnabod fod angen cynllun lleol yn ei le i amddiffyn pobl Gogledd Cymru.

12.6 Gofynnodd Aelod, gan ei fod yn fater Prydeinig, am wneud cais am gyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol, yna efallai byddai'r Awdurdod yn ystyried dod â'r mater i'r parth cyhoeddus.

12.7 Roedd cyfarfod o Awdurdodau'r DU i'w gynnal ar 10fed Hydref a byddai gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân ragor o wybodaeth am farnau awdurdodau eraill yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Byddai'r Prif Swyddogion yn gweithio gyda CLlLC i sicrhau ei fod yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd y dyfodol.

12.8 **Penderfynodd yr Aelodau i beidio â symud ymlaen gyda'r prosiect.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 y prynhawn.